Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Feithrin Sant Aubin
**503a Cowbridge Road East**
**Treganna**
**Caerdydd**
**CF5 1BB**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2015**

**gan**

**Nicholas Jones**

**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/11/2015**

## Cyd-destun

Mae meithrinfa breifat Ysgol Feithrin Sant Aubin yn lleoliad cyfrwng Cymraeg yn ardal Treganna, Caerdydd.  Mae'n cyfarfod ar lawr waelod tŷ mawr sydd wedi ei haddasu ar gyfer darpariaeth feithrin.  Mae'r lleoliad ar agor am bum dydd yr wythnos.  Mae gan y lleoliad naw aelod o staff, sy'n mynychu ar ddiwrnodau gwahanol yn ystod yr wythnos.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 33 o blant.  Mae'n derbyn plant rhwng dwy a phump oed.  Ar adeg yr arolygiad, roedd 40 o blant yn mynychu dros yr wythnos, tri ohonynt wedi'u hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un plentyn o darddiad gwyn Prydeinig ac mae ychydig yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf.  Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd y rheolwraig yn ei swydd ym Medi 2003.  Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Chwefror 2015.  Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym Mawrth 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- y profiadau dysgu, sy'n cael eu cynllunio'n drwyadl;
- y gefnogaeth effeithiol a'r cwricwlwm eang, cytbwys a diddorol;
- yr addysgu ysgogol, sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen;
- yr adnoddau hylaw;
- y defnydd cyson o'r Gymraeg, sy'n cael effaith gadarnhaol ar sut mae'r plant yn dysgu'r iaith; a'r
- berthynas dda iawn rhwng oedolion a phlant.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- y ddarpariaeth a chyfeiriad clir iawn i waith y lleoliad gan y rheolwraig a'r arweinwyr;
- y systemau hunan arfarnu rheolaidd;
- yr agwedd gadarnhaol a gweithredol iawn tuag at ddatblygiad a hyfforddiant staff;
- y defnydd effeithiol o linellau cymorth; ac
- ymarferion llwyddiannus a chefnogol y perchennog a'r rheolwraig weithredol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau fod targedau'r cynllun gwella yn deillio'n uniongyrchol o'r hunan arfarnu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cynllunio yn diwallu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol a thrwyadl ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol a phresennol y plant. Mae cyfleoedd diddorol ar gael i bob plentyn i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd heriol i ddatblygu ysgrifennu cynnar a medrau rhifedd y plant, ac i ddysgu am wledydd tramor fel yr Eidal.

Mae'r arweinwyr yn gosod amser priodol yn wythnosol i drefnu'r cwricwlwm a gweithgareddau'r themâu. Felly, mae'r cwricwlwm yn hyblyg ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant ar draws pob maes dysgu. Mae gweithgareddau a thasgau penodol yn cael eu cynllunio'n fanwl. Mae gan y plant ryddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hun.

Mae'r staff yn cynllunio amcanion dysgu yn reolaidd. Maent yn eu rhannu gyda'r grwpiau ffocws ar ddechrau'r gweithgareddau'n gyson. Mae'r staff yn darparu profiadau da i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol mewn llythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, datblygiad creadigol a chorfforol.

Mae bron pob un oedolyn yn cyfathrebu'n llwyddiannus â'r plant yn y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn bwrpasol. Mae'r staff yn cyfeirio'r plant yn reolaidd tuag at ddefnyddio cyfarpar technolegol fel cyfrifiaduron, tabled, camerâu a theganau electronig. Mae gan blant lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau diddorol fel paratoi a choginio bwydydd tramor, arbrofi gyda dŵr a thywod, chwarae rôl yn y gegin fwd, peintio a thrafod llyfrau gyda'i gilydd ac oedolion.

Mae'r lleoliad yn gosod pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen. Mae'n darparu cyfleoedd da hefyd i'r plant i ddysgu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, er enghraifft, drwy astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Diwali ac Eid. Mae gweithgareddau tebyg yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd ehangach. Mae'n codi eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae gan y staff wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas bositif iawn rhwng yr holl staff a'r plant. Mae rôl weithredol gan y staff wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Mae'r addysgu'n ysgogol, heriol ac yn llawn bywyd. Mae'r holl staff yn gosod amcanion dysgu clir ar ddechrau pob gweithgaredd ffocws i sicrhau fod y plant yn deall pwrpas y gweithgaredd. Mae hyn yn cadw diddordeb y plant ac yn eu cymell i dyfalbarhau ar bob tasg. Mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol, sy'n herio plant unigol yn briodol yn unol â'u galluoedd.

Mae'r staff yn rhoi rhyddid i'r holl blant i ddewis rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu weithio'n annibynnol. Mae'r staff yn synhwyrol wrth ymyrryd ac maent yn caniatáu i'r plant i ddatblygu ei medrau annibynnol yn llwyddiannus. Mae'r staff yn modelu iaith yn effeithiol i ddatblygu medrau meddwl, rhifedd a chyfathrebu'r plant. Mae'r staff yn annog y plant i werthuso'n synhwyrol wrth iddynt drafod stori, arbrofi â lliwiau, chwarae rôl a thrafod teithiau i wledydd tramor.

Yn yr adeilad a thu allan, mae'r staff yn darparu amgylcheddau diddorol sy'n sicrhau'n llwyddiannus fod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau. Mae'r addysgu yn yr awyr agored yn gyffrous. Mae defnydd o'r ardal tu allan yn bwrpasol.

Mae gweithdrefnau asesu cadarn a thrylwyr yn bodoli. Mae'r cofnodion o gyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n gyson gan weithwyr allweddol. Mae'r asesiadau'n arwain at dargedau plant unigol a'r camau nesaf iddynt yn eu haddysg yn llwyddiannus. Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n dda am gyflawniadau eu plant ac mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw amser.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod iechyd a lles y plant yn flaenoriaeth. Mae ymwelwyr fel nyrs, plismon a fferyllydd yn ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn ymweld â'r gymuned trwy deithiau i'r pentref, y llyfrgell a'r parc. Mae'r defnydd o'r rhan yma o'r ddinas a'r ardal leol yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cymuned yn llwyddiannus.

Mae darpariaeth dda gan y lleoliad ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn cael eu meithrin yn synhwyrol gan y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i fyfyrio, trafod teimladau a dweud diolch. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro yn barchus wrth fwyta ffrwythau ac yfed diod o gwmpas y bwrdd bwyta. Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae

cyfleoedd da ar gael i bob plentyn i ail-gylchu papur, cardbord a photeli plastig. Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth am gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae gan staff y lleoliad gymwysterau addas a phrofiad da ac mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Mae cynllunio a goruchwylio gweithgareddau yn defnyddio arbenigedd staff yn dda.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn ddiogel. Mae'r drysau ar glo a dim ond aelodau staff sy'n eu hagor. Nid oes neb yn medru dod i mewn na'r un plentyn yn medru gadael heb gwmni. Mae'r staff yn ofalus wrth i'r plant gael eu casglu ac yn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd. Mae camerâu yn monitro'r lleoliad i gefnogi'r systemau diogelwch yn effeithiol.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn nodi'n effeithiol unigolion sydd ag angen cymorth ychwanegol. Mae'r staff yn trafod y rhain gyda'r asiantaethau priodol. Mae systemau cadarn iawn ar waith i gefnogi'r plant sydd ag alergeddau at fwydydd gwahanol. Aelod o staff penodol yw'r cydlynwr anghenion dysgu ychwanegol. Mae hi'n gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant ag anghenion arbennig.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad, drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiedir gan y staff, yn hyrwyddo ethos positif. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n llwyddiannus yn yr adeilad a thu allan i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn dda. Mae'r gweithgareddau parhaus a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu yn rhannu adnoddau'n effeithiol.

Er bod yr ardal tu allan yn gyfyng yn ôl maint, mae wedi ei drefnu'n synhwyrol ac mae'r plant yn defnyddio'r adnoddau'n gyson. Maent yn dysgu trwy brofiadau ysgogol. Mae cyfleoedd addas ar gael i'r plant i dyfu planhigion mewn ardaloedd penodol o gwmpas yr adeilad.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r staff yn deall eu rolau'n llawn ac yn cydweithio'n dda fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol, yn synhwyrol. Maent hefyd yn defnyddio arbenigedd y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd a'r Mudiad Meithrin am hyfforddiant, cefnogaeth weinyddol a chynnwys polisïau. Mae'r

arfer hon yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd i gefnogi'r lleoliad. Mae'r rheolwraig, staff a'r perchennog yn cynllunio'n bwrpasol iawn i ddarparu profiadau diddorol ac ymarferol i'r plant. Maent yn defnyddio arbenigedd staff o leoliadau eraill sydd dan berchnogaeth Sant Aubin yn effeithiol iawn i gefnogi'r lleoliad â staffio.

Mae'r cynllun gwella'n nodi'n fanwl y targedau i wella'r lleoliad. Fodd bynnag, er bod targedau'r cynllunio strategol yn cael effaith gadarnhaol trwy greu gwelliannau, nid yw'r targedau yn cyfatebu'n gyson gyda'r arfarniadau yn yr adroddiad hunan arfarnu.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol iawn, sy'n effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r system o ddyletswyddo cyfrifoldebau trwy strwythur rheoli penodol yn gadarn. Mae'r perchennog a'r rheolwraig yn arwain yn effeithlon iawn ac yn rhoi ystyriaeth dda i ddeddfwriaeth. Mae'r systemau rheoli yn cwrdd â gofynion.

**Gwella ansawdd: Da**

Wrth lunio'r hunan arfarniad, mae ystyriaeth synhwyrol o sylwadau pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad yn amlwg. Mae anghenion y lleoliad yn cael eu nodi'n fanwl yn y cynllun gwella. Mae'r rheolwraig, staff a'r perchennog yn trafod yr hunan arfarnu'n hyderus ac maent yn defnyddio'r broses yn gyson ar draws y flwyddyn. Yn y cynllun gwella, mae'r ardaloedd i wella yn cynnwys gwreiddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, darparu adweitheg ar gyfer bob plentyn a chynyddu'r ymweliadau i'r gymuned leol.

Mae'r staff yn canolbwyntio'n ddiwyd ar greu gwelliannau. Maent yn targedu ardaloedd i wella'n gyson. Fodd bynnag, nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng yr hunan arfarniad a thargedau'r cynllun gwella. Er bod targedau perthnasol a chynnil yn y cynllun, nid ydynt yn deillio o gynnwys yr hunan arfarniad.

Mae'r staff yn gwneud defnydd da iawn o gyfleoedd hyfforddi a phrofiadau dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Ceir cysylltiadau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Maent yn derbyn gwybodaeth bwrpasol am gyflawniadau a chynnydd eu plant. Mae hyn yn eu helpu i gefnogi dysgu eu plant. Mae'r rhieni, yn yr atebion i'r holiaduron ac mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â'r lleoliad ac yn werthfawrogol iawn o safonau'r gofal ac ansawdd yr addysg a ddarperir. Mae'r polisi drws agored yn golygu bod rhieni yn cael cyfleoedd rheolaidd i gyfarfod â staff a thrafod unrhyw bryderon yn gynnar iawn. Mae llyfryn llawn gwybodaeth a gwefan yn darparu rhieni a gofalwyr gyda manylion perthnasol ynglŷn â'r lleoliad.

Erbyn i'r plant adael y lleoliad, mae'r rhieni'n teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn yr ysgolion lleol. Mae'r cysylltiadau rhwng y lleoliad a'r ysgolion lleol yn sefydlog. Mae'r bartneriaeth rhwng y lleoliad â'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill fel y Mudiad Meithrin a'r Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd yn ddefnyddiol. Mae'r lleoliad yn gweithredu yn

gyflym ac yn gydwybodol ar gyngor asiantaethau allanol, sy'n cefnogi'r lleoliad ac yn cyfrannu at ddarpariaeth lwyddiannus.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn heriol ac mae'n gyson ymdrechu i wella pob agwedd o waith y lleoliad. Mae'r adnoddau yn cael eu rheoli'n synhwyrol i gefnogi dysgu a gwelliannau yn y lleoliad. Mae'r rheolwraig, staff a'r perchennog yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff sy'n meddu ar gymwysterau a hyfforddiant priodol.

Defnyddir staff yn effeithiol i gyflwyno'r cwricwlwm a chefnogi dysgu'r plant. Mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithlon a phwrpasol gyda'i gilydd. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac yn hylaw i'r plant. Mae'r staff yn gwneud defnydd llwyddiannus o'r adeilad a'r ardal awyr agored i ddarparu ystod o brofiadau dysgu diddorol.

Yng ngoleuni'r ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth cadarn, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |